OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Awst 2023* |
| *Yn dod i rym* | *11 Awst 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd a'r gweithlu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Awst 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Junction 24 (Coldra) to Junction 26 (Malpas), Newport) (Temporary Prohibition of Vehicles with a weight in excess of 44 Tonnes) Order 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 August 2023* |
| *Coming into force* | *11 August 2023* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of the likelihood of danger to the public and the workforce.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1),** make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 24 (Coldra) to Junction 26 (Malpas), Newport) (Temporary Prohibition of Vehicles with a weight in excess of 44 Tonnes) Order 2023 and this Order comes into force on 11 August 2023.

### Interpretation

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle in connection with the works giving rise to this Order;

**(1)** 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaharddiad” (“*prohibition period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 ar 11 Awst 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, yrru unrhyw gerbyd y mae ei bwysau yn fwy na 44 o dunelli, ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Awst 2023



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway;

“prohibition period” (“*cyfnod y gwaharddiad*”) means the period commencing at 00:01 on the 11 August 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the prohibition period, drive any vehicle with a weight in excess of 44 tonnes, on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 1 August 2023



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Dros Dro bob Cerbyd sy’n pwyso mwy na 44 o Dunelli

1. Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain traffordd yr M4 sy’n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffyrdd 26 (Malpas), 25A (Cyfnewidfa Grove Park) a 25 (Caerllion).

2. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin traffordd yr

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of all Vehicles with a weight in excess of 44 Tonnes

1. The length of the eastbound carriageway of the M4 motorway that extends from the physical nosing of the eastbound exit slip road at Junction 26 (Malpas) to the physical nosing of the eastbound entry slip road at Junction 24 (Coldra), including the eastbound entry slip roads at Junctions 26 (Malpas), 25A (Grove Park Interchange) and 25 (Caerleon).

2. The length of the westbound carriageway of the M4 motorway that extends from the physical nosing of the

M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Caerllion), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra).

3. Y darn cyfan o ffordd gyswllt tua'r de yr A449 i ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 24 (Coldra) o'r man lle y mae'n ymwahanu oddi wrth lôn neilltuedig tua'r dwyrain yr M4 hyd at gylchfan Cyffordd 24 (Coldra) yr A449.

westbound exit slip road at Junction 24 (Coldra) to the physical nosing of the westbound entry slip road at Junction 25 (Caerleon), including the westbound entry slip road at Junction 24 (Coldra).

3. The entire length of the A449 southbound Link to the M4 westbound entry slip road at Junction 24 (Coldra) from where it diverges from the M4 eastbound dedicated lane to the Junction 24 (Coldra) A449 roundabout.